
**Rhif**: **4**

## Rhif y Cais / Application Number : C15-0922-23-LL

**Cynllun lleoliad ar gyfer adnabod y safle yn unig. Dim i raddfa.**
**Location Plan for identification purposes only. Not to scale.**




Atgynhyrchir y map hwn o Ddeunydd yr Ordnance Survey
gyda chaniatâd yr Ordnance Survey
ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.
© Hawlfraint y Goron.
Mae atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri
hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil.
Cyngor Gwynedd - 100023387 - 2006

This map is reproduced from Ordnance Survey material
with the permission of Ordnance Survey
on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office
© Crown copyright.
Unauthorised reproduction infringes Crown copyright
and may lead to prosecution or civil proceedings.
Cyngor Gwynedd - 100023387 - 2006

Cais Rhif: C15/0922/23/LL
Dyddiad Cofrestru: 28/08/2015
Math y Cais*:* Llawn - Cynllunio
Cymuned*:* Llanrug
Ward: Llanrug

Bwriad: NEWID DEFNYDD SAFLE CLWB CARAFAN PRESENNOL I SAFLE AR GYFER 12 CARAFAN TEITHIOL, CODI ADEILAD TOILEDAU GYDA THREFNIADAU DRAENIO CYSYLLTIEDIG
Lleoliad: TIR GER CIL Y BONT, CRAWIA, LLANRUG, CAERNARFON, GWYNEDD, LL554BS

**Crynodeb o'r Argymhelliad:** CANIATAU GYDAG AMODAU

**1. Disgrifiad:**

1.1 Mae'r cais llawn hwn yn ymwneud â newid defnydd safle carafannau presennol sydd wedi ei drwyddedu gan y Clwb Carafannau ar gyfer 5 carafan teithiol i safle ar gyfer 12 carafan teithiol ynghyd â chodi adeilad toiledau/cawodydd pwrpasol gyda system draenio cysylltiol.

1.2 Mae'r safle wedi ei leoli ar gyrion pentref Llanrug o fewn ardal a adnabyddir fel Crawia. Mae'n gymharol agos i afon Seiont ond ar lefel tir sydd yn uwch na'r afon ei hun. Mae safle'r cais yn mesur 0.24 hectar ac wedi ei amgylchynu gan goed a pherthi i ddwy ochr ac yn agored i weddill yr edrychfeydd, mae ffens postyn a weiren yn amgylchynu'r safle gyda wal garreg i un rhan yn ogystal.

1.3 Mae'r tir presennol yn agored a gwastad gyda thrac mynediad yn rhedeg heibio tuag at safle gwaith trin cyfagos. Mae mynediad gerbydol safonol tuag at y safle oddi ar y ffordd gyhoeddus gyfagos.

1.4 Yn gryno, mae'r bwriad yn cynnwys y gwaith canlynol:

- lledu mynedfa gerbydol bresennol o 3m i 3.2m
- codi adeilad toiledau/cawodydd i ddynion/merched yn mesur 6.2m x 8m x 4.5m gyda darpariaeth ar gyfer defnyddwyr anabl
- marcio 12 llain ar gyfer y carafanau teithiol
- tirlunio ar ymylon un ochr i'r safle gyda thirlunio pellach ar dir ar wahan ond sydd ym mherchnogaeth yr ymgeisydd

1.5 Fel sydd yn ofynnol mae'r ymgeisydd wedi cyflwyno daganiad ieithyddol yn ymwneud â'r datblygiad arfaethedig.

**2. Polisïau Perthnasol:**

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a'r Cynllun Datblygu Unedol.

## 2.2 Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd 2009:

Polisi A1 – Asesiadau amgylcheddol neu asesiadau effeithiau arall - Sicrhau fod gwybodaeth ddigonol yn cael ei darparu gyda'r cais cynllunio ynglŷn ag unrhyw effeithiau amgylcheddol neu eraill sylweddol tebygol ar ffurf asesiad amgylcheddol neu asesiadau o effeithiau eraill.

Polisi A2 – Gwarchod gwead cymdeithasol, ieithyddol a diwylliannol cymunedau - Diogelu cydlyniad cymdeithasol, ieithyddol neu ddiwylliannol cymunedau rhag niwed arwyddocaol oherwydd maint, graddfa, neu leoliad cynigion.

Polisi A3 – Egwyddor ragofalus - Gwrthod cynigion os oes unrhyw bosibilrwydd o ddifrod difrifol neu anwrthdroadwy i'r amgylchedd neu'r gymuned os na ellir dangos heb amheuaeth ar ddiwedd asesiad perthnasol o'r effeithiau y gellir negyddu neu liniaru'r effaith.

Polisi B12 - Gwarchod tirweddau, parciau a gerddi hanesyddol - Gwarchod tirweddau, parciau a gerddi ddiddordeb hanesyddol arbennig yng Nghymru rhag datblygiadau a fyddai'n achosi niwed arwyddocaol i'w cymeriad, eu hedrychiad neu eu gosodiad.

Polisi B22 - Dyluniad adeiladau - Hyrwyddo dyluniad adeiladau da drwy sicrhau fod cynigion yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i ddiogelu nodweddion a chymeriad cydnabyddedig y dirwedd a'r amgylchedd lleol.

Polisi B23 – Mwynderau - Diogelu mwynderau'r gymdogaeth leol drwy sicrhau bod rhaid i gynigion gydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i warchod nodweddion cydnabyddedig a mwynderau'r ardal leol.

Polisi B25 – Deunyddiau adeiladu - Gwarchod cymeriad gweledol trwy sicrhau fod yn rhaid i ddeunyddiau adeiladu fod o safon uchel sy'n gweddu i gymeriad ac edrychiad yr ardal leol.

Polisi B27 - Cynlluniau tirlunio - Sicrhau fod cynigion a ganiateir yn ymgorffori tirlunio meddal/caled o safon uchel sy'n briodol ar gyfer y safle ac sy'n ystyried cyfres o ffactorau sy'n anelu i osgoi niwed i nodweddion cydnabyddedig.

Polisi C1 – Lleoli datblygiad newydd - Tir o fewn ffiniau datblygu trefi a phentrefi a ffurf ddatblygedig pentrefi gwledig fydd y prif ffocws ar gyfer datblygiadau newydd. Gwrthodir adeiladau, adeiladweithiau a chyfleusterau atodol newydd yng nghefn gwlad ar wahân i ddatblygiad sy'n cael ei ganiatáu gan bolisi arall yn y Cynllun.

Polisi CH30 – Mynediad i bawb - Gwrthod cynigion ar gyfer unedau preswyl/busnes/diwydiant neu adeiladau/cyfleusterau at ddefnydd cyhoeddus os na ellir dangos y rhoddwyd ystyriaeth lawn i ddarparu mynediad priodol i'r ystod ehangaf posib o unigolion.

Polisi CH33 – Diogelwch ar ffyrdd a strydoedd - Caniateir cynigion datblygu os gellir cydymffurfio gyda meini prawf penodol sydd yn ymwneud a'r fynedfa gerbydau, safon y rhwydwaith ffyrdd presennol a mesurau tawelu traffig.

Polisi CH36 – Cyfleusterau parcio ceir preifat - Gwrthodir cynigion am ddatblygiadau newydd, ehangu datblygiadau presennol neu newid defnydd os na

ddarperir lle i barcio cerbydau oddi ar y stryd yn unol â chanllawiau parcio cyfredol y Cyngor, gan roi ystyriaeth i hygyrchedd gwasanaeth cludiant cyhoeddus, y gallu i gerdded a beicio o safle a phellter y safle at faes parcio cyhoeddus.

Polisi D19 – Safleoedd newydd ar gyfer carafanau teithiol, gwersylla ac unedau teithiol - Caniatáu cynigion i ddatblygu safleoedd carafannau teithiol, gwersylla, neu, unedau teithiol newydd os gellir cydymffurfio gyda meini prawf penodol yn ymwneud gyda dyluniad, gosodiad, gwedd a lleoliad y datblygiad, materion traffig, cyfyngu defnydd yr unedau ac effaith cronnol ar yr ardal leol.

2.3 Yn ychwanegol i bolisïau'r Cynllun Unedol, mae ystyriaeth lawn yn cael ei roi i Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA) mabwysiedig yr Awdurdod, sydd yn ystyriaethau materol a pherthnasol. Yn berthnasol yn yr achos yma, mae'r canlynol:

- Llety Gwyliau
- Cynllunio a'r Iaith Gymraeg

2.4 **Polisïau Cenedlaethol:**
Polisi Cynllunio Cymru fersiwn 7 2014

NCT 12:Dylunio
NCT 13: Twristiaeth
NCT 18: Trafnidiaeth
NCT 20: Cynllunio a'r iaith Gymraeg
NCT 23: Datblygu Economaidd

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

3.1 Nid oes hanes Cynllunio perthnasol yn ymwneud a'r safle penodol yma.

**4. Ymgynghoriadau:**

| | |
|---|---|
| Cyngor Cymuned/Tref: | Heb eu derbyn |
| Uned Drafnidiaeth: | Dim sylwadau |
| Cyfoeth Naturiol Cymru: | Nid yw'r safle o fewn parth llifogydd Afon Seiont, mae'r safle o fewn ardal tirlun hanesyddol arbennig Dinorwig ac angen ystyried ei effaith ar y tirlun. |
| Dŵr Cymru: | Heb eu derbyn |
| Uned Hawliau Tramwy: | Dim gwrthwynebiad |
| Uned Bioamrywiaeth: | Mae tir fel buffer rhwng y safle a'r afon felly dim effaith ar ddyfrgwn, nid oes pryder o safbwynt bioamrywiaeth |
| Swyddog Carafanau: | Argymhell caniatau yn ddarostyngedig i gydymffurfiaeth gyda gofynion cyfredol deddfau safonau carafannau |
| Uned Gwarchod y Cyhoedd: | Heb eu derbyn |

Ymgynghoriad Cyhoeddus: Rhoddwyd rhybudd ar y safle. Mae'r cyfnod hysbysebu wedi dod i ben ac ni dderbyniwyd unrhyw lythyr / gohebiaeth.

**5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:**

5.1 **Egwyddor y datblygiad**

Er fod y safle yma y tu allan i ffiniau datblygu pentref Llanrug, mae egwyddor y datblygiad yn dderbyniol gan fod gofynion polisi C1 yn datgan y gall datblygiadau gael ei ganiatáu gan bolisi arall yn y Cynllun. Yn yr achos yma credir mai'r polisi mwyaf perthnasol yw polisi D19 'Safleoedd newydd ar gyfer carafannau teithio, gwersylla ac unedau teithiol'l ac y dylid ystyried effaith y datblygiad yn unol a meini prawf y polisi hwn. Fe drafodir y meini prawf rhain yn y rhannau perthnasol o'r asesiad isod ac os gall y bwriad gwrdd gyda'r meini prawf hyn ystyrir fod egwyddor y datblygiad yn dderbyniol.

5.2 **Mwynderau gweledol**

5.2.1 Mae lleoliad y safle i raddau, mewn safle amlwg gan ei fod yn weddol agos i'r ffordd gyhoeddus sydd yn cysylltu pentrefi Llanrug a Bethel. Er hynny, mae gorchudd sylweddol o goed yn amgylchynu un rhan o'r safle sef ar hyd ei ffin gyda afon seiont sydd ar lefel tir yn is na safle'r cais.

5.2.2 Nid oes unrhyw strwythur presennol o fewn y safle, mae'r safle fel y mae yn llêd naturiol er fod y glaswellt yn amlwg yn cael ei dorri yn rheolaidd. Mae ffens postyn a weiren ar hyd y ffin amlycaf sydd yn gweddu gyda thriniaethau ffin cyffredin o fewn yr ardal gyfagos.

5.2.3 Fe gydnabyddir felly, er y bydd peth effaith ar fwynderau gweledol yr ardal gyfagos o ganlyniad i'r datblygiad, ni ystyrir y byddai hyn yn sylweddol fwy na'r hyn sydd yn bodoli eisioes drwy ddefnydd y safle gan y Clwb Carafannau.

5.2.4 Mae'r datblygiad ffurfiol amlycaf sef yr adeilad parhaol, yn cael ei leoli rhwng lleiniau bwriedig ac yn cyd-redeg gyda thriniaeth ffin bresennol y safle. Mae iddo orffeniad sydd yn gyffredin o fewn yr ardal sef to llechi a waliau rendr.

5.2.5 Ystyrir fod dyluniad/graddfa'r adeilad, ei leoliad a defnydd o orffeniadau yn dderbyniol ac yn briodol i'r lleoliad. Mae datblygu gweddill y safle hefyd yn cael ei ystyried yn dderbyniol ar sail ei raddfa, gosodiad ac y bydd tirlunio presennol a bwriadedig o gymorth mawr i sicrhau na fydd effaith niweidiol gormodol ar fwynderau gweledol yr ardal gyfagos.

5.2.6 Credir felly fod y bwriad yn dderbyniol a'i fod yn bodloni gofynion polisïau B22, B23, B25 a B27 yn ogystal a Maen Prawf 1 o Bolisi D19.

5.2.7 Cydnabyddir fod y safle o fewn ardal o ddiddordeb hanesyddol arbennig Dinorwig, er hynny, ni chredir y byddai'r bwriad o ran ei faint, ffurf a lleoliad yn cael effaith anerbyniol ar yr ardal dynodedig yma ac felly ni chredir fod y bwriad yn annerbyniol o safbwynt gofynion polisi B12.

5.3 **Mwynderau cyffredinol a phreswyl**

Mae'r safle presennol yn cael ei ddefnyddio i bwrpas carafannau eisioes, er yn amlwg i raddau llai a mwy anffurfiol. Ni ystyrir y byddai effaith niweidiol hir dymor ar fwynderau cyffredinol yr ardal gyfagos nag ychwaith ar fwynderau preswylwyr

cyfagos gan fod y tai preswyl agosaf cryn bellter o safle'r cais. Ystyrir felly y byddai gofynion polisi B23 yn cael eu bodloni.

**5.4 Materion trafnidiaeth a mynediad**

5.4.1 Mae'r fynedfa bresennol i mewn i'r safle yn cael ei addasu trwy ei lledu er mwyn sicrhau mynediad briodol i gerbydau argyfwng. Bydd hyn hefyd yn hwyluso symudiadau i mewn ac allano o'r safle.

5.4.2 Nid yw'r Uned Drafnidiaeth yn gwrthwynebu'r cais fel y cyflwynwyd gan gadarnhau fod yr hyn a fwriedir yn dderbyniol ac yn cydymffurfio gyda gofynion safonau cyfredol.

5.4.3 Mae symudiadau oddimewn y safle ar lefel gwastad heb unrhyw rwystrau amlwg i ddefnyddwyr o ran hygyrchedd. Mae'r adeilad toiledau yn cynnwys toiled/cawod ar gyfer defnyddwyr anabl.

5.4.4 Ystyrir felly fod y bwriad yn dderbyniol a'i fod yn bodloni gofynion polisïau CH30, CH33 a CH36 yn ogystal a Maen Prawf 2 o bolisi D19.

**5.5 Materion llifogydd**

Mae CNC wedi cadarnhau fod y safle ar godiad tir sydd i ffwrdd o barth llifogydd cyfagos Afon Seiont, nid oes unrhyw bryder felly o safbynt yr agwedd yma.

**5.6 Unrhwy ystyriaeth arall**

5.6.1 Mae lleoliad y cais hwn yn safle sydd eisioes yn cael ei ddefnyddio ar gyfer carafanio ond ar raddfa bychan sydd wedi ei eithrio o'r angen am ganiatad cynllunio ffurfiol arferol.

5.6.2 Mae safleoedd carafannau teithio fel yma yn cynnig cyfle i fuddsoddi yn lleol trwy wario yn y siopau, tai bwyta, tafarndai, modurdai ayyb. Credir y byddai darparu cyfleusterau fel yma yn ychwanegu at yr hyn a ellir ei gynnig yn lleol.

5.6.3 Mae'r datblygiad yma ar safle sydd eisioes wedi ei sefydlu ar gyfer defnydd carafannau teithiol er i raddau llai. Ni chredir y byddai'r bwriad yma yn cael effaith sylweddol wahanol neu fwy i'r hyn a ddarperir eisoes.

5.6.4 Gellir amodi unrhyw ganiatad i sicrhau fod y safle ond yn cael ei ddefnyddio ar gyfer dibenion teithiol yn unig a gellir hefyd rheoli y nifer o unedau yn ogystal a sicrhau na fyddai unrhyw storio yn diwgydd ar y safle er mwyn rheoli'r effiath hir-dymor a gweledol.

5.6.5 Ni ystyrir fod gor-ddarpariaeth o safleoedd tebyg yn y cyffiniau ac felly na fyddai effaith cronnol tebygol o ganiatau'r bwriad.

5.6.6 Ystyrir felly fod y bwriad yn unol gyda meini prawf 3 a 4 o Bolisi D19 ac felly ei fod yn bodloni holl ofynion polisi D19.

**5.7 Materion Ieithyddol**

5.7.1 Cyflwynwyd Datganiad Ieithyddol gyda'r cais ac fe aseswyd hwn gan yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd a derbyniwyd yr ymateb canlynol i'w gynnwys:

- Ar y cyfan, ni chredir fod natur na graddfa’r datblygiad arfaethedig yn debygol o gael effaith andwyol ar yr iaith Gymraeg.

- Mae’r cynnig yn gyfan gwbl ar gyfer lleiniau unedau teithiol ac nid lleiniau parhaol, mae’n anhebyg felly y bydd y datblygiad yn cael ardrawiad arwyddocaol ar fewnfudiad i’r ardal.

- Mae sefyllfa’r iaith yn gryf iawn yn ward Llanrug.

- Mi fydd cynnydd yn nifer yr ymwelwyr i’r ardal yn debygol o gael effaith bositif ar economi’r ardal ag felly o fudd i’r iaith Gymraeg gan y bydd yn debygol o greu cyfleoedd economaidd i bobl lleol.

5.7.2 O ganlyniad ystyrir fod yr agwedd yma o’r bwriad yn unol gyda pholisiau A1, A2 ac A3 o’r CDU yn ogystal a’r CCA perthnasol.

## 6. Casgliadau:

6.1 O ystyried yr uchod ac wedi ystyried yr holl faterion cynllunio perthnasol gan gynnwys polisiau a chanllawiau lleol a chenedlaethol, ni chredir fod y bwriad yma i greu maes carafannu teithiol i 12 carafan a chodi adeilad toiledau cysylltiol yn annerbyniol a’i fod yn bodloni gofynion y polisiau perthnasol fel a nodir uchod.

## 7. Argymhelliad:

7.1 Caniatau – amodau

1. Amser
2. Cydymffurfio gyda chynlluniau
3. Deunyddiau/llechi
4. Tirlunio
5. Cyfyngu defnydd y safle i deithiol yn unig ac ond ar gyfer 12 uned teithiol ar y lleiniau a ddangosir
6. Cyfyngu’r tymor
7. Cadw cofrestr
8. Dim storio unedau teithiol ar unrhyw ran o’r safle
9. Gwaith i’r fynedfa cyn dechrau ar weddill y bwriad/dod a’r safle i ddefnydd

Nodyn: Cyfarwyddyd i ddilyn cyngor a gyflwynwyd gan y Swyddog Carafannau